



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Portfield
Ger Portfield
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1BS**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Portfield

Mae Ysgol Portfield wedi'i lleoli yn nhref Hwlfordd yn Sir Benfro ac mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair a phedair ar bymtheg oed sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylder y sbectrwm awtistig, yn ogystal ag amrywiol anhwylderau genetig, anawsterau corfforol a synhwyraidd.

Ar hyn o bryd, mae 158 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw disgyblion o ddalgylch mawr ar draws Sir Benfro, a daw ychydig iawn o awdurdod lleol cyfagos. Mae datganiad o AAA neu gynllun addysg, iechyd a gofal gan bron pob un o'r disgyblion. Mae tua 38% o'r holl ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Siaredir Cymraeg fel eu hiaith gyntaf gan ychydig iawn o ddisgyblion. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol gyda chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau o ddisgyblion dros gyfnod oherwydd natur anghenion addysgol arbennig disgyblion.

Mae prif gampws yr ysgol yn cynnwys ysgol gynradd yn adeilad isaf yr ysgol ac ysgol uwchradd yn adeilad uchaf yr ysgol. Yn ychwanegol at y ddarpariaeth ar gampws Ysgol Portfield, mae'r ysgol yn gweithredu dau ddsbarth lloeren mewn ysgolion uwchradd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys dosbarth yn Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlfordd a dosbarth yn Ysgol y Preseli sy'n ddsbarth cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnal gwasanaeth cymorth allymestyn ar gyfer yr awdurdod lleol sy'n cefnogi ysgolion prif ffrwd a chanolfannau adnoddau dysgu i gynorthwyo disgyblion ag AAA. Nid oedd y gwasanaeth yn rhan o'r cwmpas yn ystod yr arolygiad.

Ymunodd pennaeth dros dro â'r ysgol ym Medi 2018 ac fe'i penodwyd i'r swydd barhaol ym Mawrth 2019. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mawrth 2013.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae Ysgol Portfield yn ysgol hapus a llwyddiannus lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ffynnu. Mae disgyblion yn ymfalchio'n fawr yn eu hysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr hyderus sy'n gwella eu gwydnwch corfforol ac emosiynol yn arbennig o dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron yr holl ddisgyblion yn trin ei gilydd gyda pharch ac mae llawer yn dangos agweddau hynod ofalgar ac empathi tuag at ei gilydd a'r staff.

O ran eu hanghenion a'u galluoedd unigol, mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod yn erbyn eu targedau personol. Gwnânt gynnydd arbennig o effeithiol wrth ddatblygu'u medrau annibyniaeth, cyfathrebu a'u medrau cymdeithasol. Mae'r cynnydd hwn yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr mwy hyderus ac yn hyrwyddo'u gallu i fyw'n fwy annibynnol yn y dyfodol. Mae cynlluniau athrawon ar gyfer datblygu'r medrau hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n eithriadol o dda gyda gwasanaethau arbenigol allanol sydd ar gael iddi i ddarparu dull integredig o fodloni anghenion disgyblion a sicrhau bod gan athrawon a staff cymorth dysgu y strategaethau i gefnogi dysgu disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu lefel uchel eithriadol o ofal, cymorth ac arweiniad.

Mae arweinwyr a staff wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n pennu dyheadau uchel ar gyfer datblygiad personol yr holl ddisgyblion, ac a ddeallir yn dda gan holl aelodau'r gymuned ysgol. Caiff cryfder ethos yr ysgol a'i systemau effeithiol ar gyfer cymorth a gofal effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

Maes Arolygu	Barn
Safonau	Rhagorol
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad
- A2 Gwella cysondeb addysgu a chymorth dysgu fel bod yr holl arfer yn cydweddu â'r arfer orau yn yr ysgol
- A3 Sicrhau bod prosesau rheoli ansawdd yn canolbwyntio'n glir ar ansawdd addysgu ac asesu gwaith disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi dwy astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio'r ysgol ar gyfer datblygu medrau annibyniaeth disgyblion, a sut mae'r ysgol yn paratoi disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid i gyfrannu at gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Rhagorol

Mae bron yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Portfield yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn unigol o ran y targedau yn eu cynlluniau personol. Er gwaetha'r amrywiant eang yn natur a chymhlethdod eu hanghenion, mae'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol yn cefnogi datblygu'u lles a'u hannibyniaeth yn effeithiol iawn.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd buddiol eithriadol mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd unigol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn datblygu medrau cadw tŷ gwerthfawr sy'n hyrwyddo'u gallu i fyw yn fwy annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys sut i ddefnyddio haearn smwddio a bwrdd smwddio yn ddiogel, dysgu siopa gan gadw at gyllideb a sut i baratoi bwyd iach.

Mae disgyblion hŷn yn gwella'u dealltwriaeth o'r byd gwaith drwy ystod eang o weithgareddau menter a lleoliadau profiad gwaith sydd wedi'u cynllunio'n dda. Er enghraifft, maent yn dysgu defnyddio offer gwaith coed mewn cwmni gwaith saer i uwchgylchu celfi, gwneud blychau adar a blychau planhigion pren, ac ymarfer medrau arlwyo a gwasanaeth cwsmeriaid mewn caffi a siop elusen leol.

Mae disgyblion iau a'r rheini ag anghenion mwy cymhleth yn gwneud cynnydd yr un mor gryf dros gyfnod wrth ddatblygu'u medrau annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn cefnogi arferion cyfarwydd yn y dosbarth trwy ddsbarthu eitemau i'w cyfoedion, mynd i nôl yr offer sydd ei angen arnynt a chlirio ar eu hôl ar ôl gweithgareddau dysgu neu ar ddiwedd egwyl neu amser bwyd. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'u medrau coginio o oedran cynnar trwy droi a chymysgu cynhwysion a thylino'r toes i wneud bara.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol iawn wrth wella'u medrau cyfathrebu. Mae disgyblion ag anghenion cymhleth yn cyfathrebu'n llwyddiannus gan ddefnyddio switshis, peiriannau allbwn llais a thechnoleg llygad-syllu. Mae disgyblion y mae arnynt angen cymorth i gyfathrebu'n llafar yn defnyddio ystod o strategaethau gan gynnwys ystumio, arwyddo a symbolau yn hyderus i wneud dewisiadau a dangos eu dealltwriaeth.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sicr tuag at eu nodau dysgu. Maent yn ymdawelu'n gyflym i wneud tasgau ac yn cofio dysgu blaenorol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwranddo'n ofalus ar y cyfarwyddiadau a dderbyniant yn y dosbarth ac yn ymateb yn frwdfrydig i'r arweiniad a gânt gan staff.

Gwneir cynnydd cryf gan lawer o ddisgyblion yn eu medrau darllen ac ysgrifennu o gymharu â'u manau cychwyn unigol. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen cyfarwyddiadau ysgrifenedig syml yn dda, er enghraifft wrth wneud brechdan, neu'n dilyn dilyniannau o symbolau i gefnogi'u gallu i gwblhau'r dasg gydag annibyniaeth addas. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn gwella'u medrau llawysgrifen ac yn defnyddio gramadeg cywir mewn darnau ysgrifenedig hwy sy'n disgrifio beth maent wedi'i wneud dros y penwythnos neu ymweliad â'r ysgol gan gyfarwyddwr plant ac ysgolion yr awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda iawn ac yn defnyddio'r rhain yn adeiladol mewn cyd-destunau sy'n eu helpu'n sylweddol i fod yn fwy annibynnol. Er enghraifft, maent yn cyfnerthu'u dealltwriaeth o bwysau a mesurau ac yn cymhwyso hyn yn llwyddiannus wrth baratoi bwyd, neu wrth amcangyfrif cyfaint hylif sydd ei angen i lenwi cynwysyddion o feintiau gwahanol. Mae disgyblion mwy abl yn gwella'u medrau adnabod darnau arian a thrafod arian, ac yn casglu a chofnodi setiau data syml y maent yn eu defnyddio i greu diagramau Venn a graffiau bar.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn llwyddiannus i ymestyn a chefnogi'u dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn mwy abl yn ailddrafftio'u gwaith ysgrifenedig i gynhyrchu cyflwyniadau sy'n cynnwys testun a delweddau, neu'n defnyddio technoleg ddigidol i gynhyrchu ffilmiau byr y maent yn eu cysylltu â chodau QR i'w cynnwys yn eu llyfrau lloffion 'Amdanaf I / All About Me'. Mae disgyblion iau yn defnyddio taflunyddion llawr rhyngweithiol i archwilio'r berthynas rhwng achos ac effaith wrth iddynt ddysgu mwy am destunau fel y tymhorau a'r tywydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau creadigrwydd yn sicr yn gyson â'u galluoedd drwy weithgareddau difyr fel cyfranogi mewn storïau synhwyraidd, neu ysgrifennu, ffilmio a chyflwyno rhagolwg tywydd. Maent yn ymateb yn hyderus i dasgau datrys problemau sy'n gofyn iddynt wneud dewisiadau priodol a nodi pa ddeunyddiau sydd eu hangen arnynt i gwblhau'u tasgau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau sy'n datblygu'u cryfder corfforol a'u gwydnwch fel nofio, marchogaeth ac alldeithiau gwerysyla. Mae disgyblion â gallu cyfyngedig i symud yn gwneud cynnydd cryf wrth wella eu cydsymud a'u hymatebion corfforol trwy raglenni ffisiotherapi, hydrotherapi a therapi adlam gwerthfawr.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn perthynas â'u hanghenion a'u cefndir. Mae bron yr holl ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth lloeren yn Ysgol y Preseli yn datblygu medrau dwyieithog ac yn rhyngweithio'n hyderus gyda'u cyfoedion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae bron yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 yn cyflawni ystod fuddiol o achrediadau mewn meysydd perthnasol sy'n atgyfnerthu eu medrau llythrennedd, rhifedd, annibyniaeth a medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r holl ddisgyblion wedi symud ymlaen i addysg bellach, coleg preswyl arbenigol, darpariaeth gwasanaethau oedolion neu gyflogaeth.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron yr holl ddisgyblion yn Ysgol Portfield School yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maent yn teimlo'n saff a diogel yn yr amgylchedd tawel y mae'r ysgol yn ei ddarparu, ac maent yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gynnes ac yn foesgar i ymwelwyr â'r ysgol. Maent yn awyddus i ddysgu mwy amdanynt ac i rannu'u cyflawniadau eu hunain gyda nhw.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd hynod gadarnhaol â'i gilydd ac â staff. Maent yn trin ei gilydd gyda chryn barch ac mae llawer yn dangos agweddau gofalgar ac empathi tuag at ei gilydd a staff. Mae llawer yn cyflawni gweithredoedd digymell o garedigrwydd, er enghraifft helpu disgybl arall i gario'i eiddo at y bws neu gynorthwyo disgyblion eraill i dorri eu bwyd amser cinio.

O ran eu hanghenion a'u galluoedd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus sy'n mynd yn fwyfwy annibynnol yn eu dysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu, yn dangos lefelau canolbwyntio cynaledig ac yn canolbwyntio'n arbennig o dda mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u gwydnwch yn sylweddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn dyfalbarhau â thasgau, a gydag anogaeth sensitif gan staff, maent yn deall y gall gwneud camgymeriadau eu helpu i ddysgu ac adweithio'n gadarnhaol iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn dilyn yr arferion sefydledig ar gyfer gwersi, gwasanaethau a symud o amgylch yr ysgol yn dawel a hyderus. Mae bron pawb yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol trwy gydol y diwrnod. Mae llawer yn aros yn amyneddgar ac yn cymryd eu tro yn briodol, er enghraifft yn y neuadd fwyta wrth giwio am eu cinio, neu wrth fynd â'u platiau a'u cyllyll a ffyrc yn ôl at y trolï. Mae disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio a pharatoi gweithgareddau dysgu gyda'i gilydd.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol iawn fel dinasyddion cyfrifol sy'n ymgysylltu'n llwyddiannus yn eu cymuned ac yn ymfalchïo yn y cyfraniadau a wnânt. Er enghraifft, maent yn gwirfoddoli yn y gymuned i greu manau awyr agored sy'n hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig. Mae proffil cryf gan y cyngor ysgol, ac mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau arwain gyda mwy a mwy o hyder. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyflawni gweithgareddau buddiol i wella amgylchedd yr ysgol, er enghraifft trwy drefnu sesiwn codi sbwriel.

Mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel delfrydau ymddwyn buddiol i ddisgyblion iau. Darparant gymorth defnyddiol mewn gwersi addysg gorfforol, ac amser egwyl. Mae'r ymagwedd hon yn datblygu'u hyder a'u hunan-barch yn effeithiol iawn. Mae'r grŵp disgyblion 'Tîm Tech / Tech Team' yn cynhyrchu adnoddau gwerthfawr i hyrwyddo diogelwch ar-lein, ac mae ychydig o ddisgyblion wedi cyfrannu at gynhadledd diogelu ieuenctid.

Mae dealltwriaeth gryf gan lawer o ddisgyblion o bwysigrwydd deiet iach ac ymarfer corff. Gwnânt ddewisiadau bwyd iach a chymerant ran yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn cynllunio ac yn paratoi prydau iach yn rheolaidd, yn bwyta gyda'i gilydd, ac yn ystod prydau bwyd yn dangos moesau bwrdd rhagorol a medrau sgwrsio datblygedig iawn. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan yn egnïol mewn gweithgareddau corfforol, fel boccia, hyfforddiant cylchol a dawnsio gwlad, ac yn gwella'u medrau a'u hymwybyddiaeth ofodol yn dda.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n bodloni anghenion bron yr holl ddysgwyr yn llwyddiannus. Mae arweinwyr wedi adolygu ac wedi dechrau diwygio'u hymagwedd at y cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth, ac yn mynd i'r afael yn addas â'r agenda diwygio addysg genedlaethol. Mae'r ymagwedd newydd hon yn ei dyddiau cynnar.

Mae llawer o athrawon yn gweithio'n agos â'i gilydd i gynhyrchu cwricwlwm cydlynus sy'n canolbwyntio'n addas ar ddatblygu medrau bywyd ac annibyniaeth disgyblion. Er enghraifft, maent yn cynllunio tasgau dysgu cyfoethog a difyr bob hanner tymor sy'n pwysleisio datblygu'r medrau hyn mewn cyd-destunau pwrpasol. Mae'r ffocws cyson hwn ar ddatblygu annibyniaeth disgyblion yn cysylltu'n dda ag achrediad pwrpasol ar gyfer disgyblion hŷn ac mae'n nodwedd gref o waith yr ysgol.

Caiff disgyblion hŷn gyfleoedd gwerthfawr i gyfranogi mewn addysg yn gysylltiedig â gwaith a phrofiad gwaith. Mae'r ysgol wedi cynyddu ystod y partneriaethau y mae'n eu cynnig i ddisgyblion, gan gynnwys canolfan seibiant, siop elusen gymunedol a menter gymdeithasol leol i uwchgyrchu celfi. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu'u medrau mewn amrywiaeth fuddiol iawn o gyd-destunau go iawn, gan hyrwyddo annibyniaeth a dysgu gydol oes yn effeithiol. Mae hon yn nodwedd llwyddiannus iawn o waith yr ysgol.

Mae disgyblion yn elwa o ystod eang o gyfleoedd cyffrous a buddiol i ddatblygu'u medrau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae'r Wyl Shakespeare i Ysgolion yn galluogi disgyblion i wella'u medrau llythrennedd a chyfathrebu, wrth feithrin eu hyder a gwaith tîm o flaen cynulleidfa fyw. Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo cyfranogiad disgyblion mewn llawer o weithgareddau cadwraethol ac ecolegol pwrpasol yn lleol, fel codi sbwriel mewn coetir cyfagos, a phlannu coed gyda'r parcmon ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Mae'r gwaith hwn, a achredir drwy Wobr Dug Caeredin, yn cydnabod ac yn gwobrwyo ystod eang o fedrau a galluoedd, gan arwain at achrediad gwerthfawr i ddisgyblion.

Mae cynllunio strategol yr ysgol i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn effeithiol a phwrpasol. Er enghraifft, mae cynorthwywyr cymorth dysgu ac athrawon, gyda chefnogaeth gwasanaethau arbenigol allanol, yn gweithio'n agos â'i gilydd i fodloni anghenion cyfathrebu disgyblion yn dda. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys dulliau cyfathrebu defnyddiol fel iaith arwyddion, symbolau a defnyddio dyfeisiau cyfathrebu llechen. Caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i ddatblygu'u medrau digidol drwy ystod o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn defnyddio meddalwedd yn effeithiol i greu animeiddiad yn ymwneud â phrosiect y celfyddydau mynegiannol ar chwedl Caledfwlch.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant, treftadaeth a gwerthoedd Cymru yn briodol. Mae'r ysgol wedi ennill gwobrau cenedlaethol sy'n hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru dros flynyddoedd lawer, ac mae ychydig o ddisgyblion yn cael llwyddiant mewn cystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn datblygu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol a gofalgwr gyda disgyblion. Mae'r ymagwedd hon yn creu amgylchedd dysgu cyson dawel ar draws yr ysgol sy'n cefnogi ymddygiad

cadarnhaol bron yr holl ddisgyblion. Gan weithio'n agos â'i gilydd, mae staff yn creu arferion buddiol sy'n galluogi disgyblion i gydweithio â'i gilydd yn hyderus a gyda mwy a mwy o annibyniaeth. Maent yn cynorthwyo disgyblion yn feddylgar i ddatblygu'u gwydnwch emosiynol a chorfforol.

Mewn llawer o wersi, mae disgwyliadau uchel gan athrawon o waith ac ymddygiad disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn pennu amcanion ystyrllon, yn cynllunio tasgau diddorol a difyr ac yn defnyddio ystod addas o adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Hefyd, maent yn cynllunio cyfleoedd perthnasol i ddatblygu medrau cyfathrebu, medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, mae cyflymder y dysgu'n rhy araf. O ganlyniad, collir cyfleoedd i ymgysylltu'n effeithiol â disgyblion. Yn ogystal, ar ychydig o achlysuron, mae staff yn ymyrryd yn rhy gyflym i gynorthwyo disgyblion. Mae hyn yn rhwystro datblygiad annibyniaeth disgyblion.

Mae bron yr holl staff yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o strategaethau cyfathrebu wrth gynorthwyo disgyblion gyda'u dysgu. Defnyddiant y strategaethau hyn yn fedrus i ddarparu adborth defnyddiol i ddisgyblion mewn gwersi mewn ffyrdd sy'n bodloni'u hanghenion a'u galluoedd unigol. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig addas sy'n benodol i'r disgybl, ac sy'n eu helpu i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ymateb yn dda. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae diben yr adborth ysgrifenedig yn aneglur.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae staff yn yr ysgol yn darparu lefel eithriadol o uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer eu disgyblion. Maent yn cymhwyso polisiâu cadarn yr ysgol yn gyson, sy'n cefnogi deilliannau dysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae prosesau sefydledig gan yr ysgol sy'n galluogi staff i olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn hynod effeithiol. Ceir ystod bwrpasol o asesiadau sy'n cyfateb yn dda i anghenion a galluoedd disgyblion. Mae arweinwyr a staff addysgu yn defnyddio deilliannau'r asesiadau hyn yn fedrus i sicrhau bod eu cynllunio o ran y cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i'r holl ddisgyblion bron. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mireinio'i system olrhain i gyflwyno olrhain medrau cyfathrebu er mwyn cryfhau'r broses fonitro. Megis dechrau cael ei datblygu y mae'r fenter hon. Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer olrhain a monitro presenoldeb.

Mae systemau cadarn iawn ar waith gan yr ysgol i osod, olrhain a monitro targedau cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion. Ceir cysylltiadau cryf rhwng yr amcanion yn natganiadau disgyblion, gosod targedau CAU a chynlluniau athrawon. Mae'r broses gadarn hon yn darparu cyfleoedd buddiol i'r holl ddisgyblion bron wneud cynnydd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae cyfarfodydd adolygu blynyddol yn defnyddio ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn eithriadol o dda, ac mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion a rhieni'n eithriadol o effeithiol i gyfrannu'n llawn at y broses. Mae hyn wedi cryfhau ymglymiad disgyblion yn eu dysgu eu hunain yn sylweddol. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwerus ar ddarpariaeth yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n eithriadol o dda gydag ystod o weithwyr proffesiynol i wella deilliannau disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion a chynorthwywyr lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, a chynrychiolwyr o'r

awdurdod lleol a Gyrfa Cymru. Mae ymglymiad a chyfraniad y gweithwyr proffesiynol hyn at gyfarfodydd adolygu blynyddol yn cryfhau'r broses hon yn sylweddol. O ganlyniad, caiff gwybodaeth am ddisgyblion ei rhannu'n effeithiol a gosodir targedau ar gyfer gwella ar y cyd er mwyn darparu ymagwedd integredig at ddiwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mae argaeledd y gwasanaethau hyn i'r ysgol a theuluoedd yn anghyson.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn. Cynigiant gyfleoedd sydd wedi cael eu hystyried yn ofalus i ddisgyblion ddatblygu'u medrau cyfathrebu. Mae'r ffocws ar yr agwedd hon yn galluogi bron yr holl ddisgyblion i ddatblygu'u medrau annibyniaeth yn effeithiol iawn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Darperir delfrydau ymddwyn hynod gadarnhaol gan staff ar gyfer disgyblion. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol a diwylliant o oddefgarwch a pharch yn gyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o ofalu am ei gilydd, ac yn dangos gweithredoedd o garedigrwydd wrth iddynt fyw eu bywyd yn yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o fod yn rhan o gymuned ac mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i hynny. O ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion yn adeiladu lefelau uchel o ymddiriedaeth, cydweithredu, ac agweddau cadarnhaol ynglŷn â nhw eu hunain ac eraill.

Mae cyfathrebu gyda rhieni a chymorth ar gyfer rhieni wedi'u datblygu'n dda. Ceir ystod o systemau cyfathrebu effeithiol yn yr ysgol, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, apiau a chylchlythyrau i roi gwybodaeth i rieni'n gyson. Mae cysylltiadau â rhieni yn cael eu cryfhau'n sylweddol drwy rôl swyddog ymgysylltu cymunedol rhieni'r ysgol sy'n darparu un pwynt cyswllt defnyddiol i'r holl rieni. Mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol buddiol iawn i gynnwys rhieni yn nysgu eu plentyn, fel boreau coffi, a digwyddiadau codi arian adeg y Nadolig. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen hyfforddi hynod effeithiol i rieni er mwyn rhannu strategaethau dysgu ac ymddygiad rhwng y cartref a'r ysgol. Mae rhieni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol. Ceir cyfleoedd sydd wedi'u sefydlu'n dda i'r holl ddisgyblion gymryd rhan yn y cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r 'Tîm Tech / Tech Team'. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymglymiad disgyblion yn gryf mewn gweithgareddau eraill i ddatblygu'u hyder a'u medrau cymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau drama, ymweliadau addysgol i ddatblygu medrau adeiladu tîm a mynediad i ddigwyddiadau chwaraeon. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u hyder yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gadarn, wedi'i sefydlu'n dda, ar draws yr ysgol, ac mae'n arbennig o effeithiol o ran cefnogi datblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion. Trwy gydol y diwrnod ysgol, mae staff yn cyflwyno'r rhaglen hon yn fedrus. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo dealltwriaeth disgyblion ynglŷn â gwneud dewisiadau bwyd iach, peryglon alcohol, tybaco a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r ymagwedd hon yn hyrwyddo datblygiad medrau bywyd disgyblion yn effeithiol, gan eu paratoi'n dda wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol a thuag at fyd oedolion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, er bod angen gwella'r mesurau sydd ar waith i reoli traffig o amgylch safle'r ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu heriau cynyddol yn sgil newidiadau i'r tîm arwain a chymhlethdod cynyddol anghenion dysgu ei disgyblion. Yn ogystal, mae'r ysgol yn rheoli cyfyngiadau ei safle a'i hadeiladau. Er gwaetha'r heriau hyn, mae'r ysgol wedi cynnal ffocws cryf ar ei diben craidd a sicrhau bod systemau a darpariaeth yn cefnogi ei gwaith yn effeithiol.

Mae'r pennaeth, yr uwch dîm arwain a'r tîm staff wedi sefydlu gweledigaeth ar y cyd yn seiliedig ar ddarparu'r medrau personol a'r medrau cyfathrebu sydd eu hangen ar ddisgyblion ar gyfer bywyd oedolion. Mae'r weledigaeth hon yn pennu uchelgeisiau uchel ar gyfer datblygiad personol yr holl ddisgyblion. Fe'i deallir yn dda ac mae'n cael ei chrosawu gan y gymuned ysgol gyfan. Gan weithio gyda'i gilydd, mae staff wedi datblygu ethos cryf a systemau effeithiol ar gyfer cymorth a gofal disgyblion. Caiff y rhain effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r tîm arwain wedi diwygio ymagweddau at ddatblygu medrau iaith a chyfathrebu, olrhain a'r cwricwlwm, ac ar hyn o bryd mae'n adolygu ei rolau a'i gyfrifoldebau penodol. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y datblygiadau hyn ar ddeilliannau a'r ddarpariaeth.

Ceir trefniadau buddiol i staff gyfarfod yn wythnosol i drafod cynnydd disgyblion, agweddau ar addysgu, anghenion hyfforddi ac i gynllunio gyda'i gilydd. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod ffocws cryf a chyson ar ddiben craidd yr ysgol a'i blaenoriaethau datblygu. Maent yn darparu goruchwyliaeth effeithiol i'r tîm arwain o waith y staff ac yn eu galluogi i fonitro cynnydd o ran bodloni blaenoriaethau.

Mae'r ysgol yn seilio'i blaenoriaethau datblygu yn briodol ar fodloni anghenion cynyddol y disgyblion o fewn cyfyngiadau'r safle, mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a gwerthuso'r data sydd ar gael ar gynnydd disgyblion yn ofalus. Mae arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd yn dda i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol yn bodloni'u hanghenion. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o arsylwadau gwersi a theithiau dysgu i werthuso effaith agweddau penodol ar addysgu ac asesu gwaith disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Ceir partneriaethau strategol effeithiol gyda rhieni ac ystod eang o ddarparwyr allanol, yn cynnwys cyflogwyr lleol, ysgolion eraill a'r coleg. Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth chwilio am bartneriaid i gefnogi'i blaenoriaethau, ac mae'n gweithio'n dda gyda nhw i gryfhau ei chwricwlwm a chefnogi darpariaeth.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff yn rheolaidd, wedi'u trefnu'n dda ac yn cydbwysu'n addas yr angen am hyfforddiant i gefnogi anghenion personol disgyblion a'u hanghenion o ddydd i ddydd gyda'r angen i gefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae hyfforddiant wedi canolbwyntio ar ddatblygu medrau iaith a chyfathrebu disgyblion. Hefyd, ceir ffocws cryf ar gefnogi lles staff a datblygu gallu pob aelod o staff i arwain. Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu'n briodol a bod staff yn cael y cymorth a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni'u rolau a gwella'u harbenigedd proffesiynol.

Mae llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu a'r materion allweddol ar gyfer yr ysgol. Maent yn gefnogol o'r ysgol ac yn datblygu eu rôl yn addas fel ffrind beirniadol.

Mae adeilad uchaf pwrpasol a newyddach yr ysgol yn cynnwys ystafelloedd dosbarth mawr a mannau awyr agored sydd wedi'u trefnu'n dda yn gyffredinol, ac yn cynnig adnoddau i gefnogi dysgu'n briodol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ceir diffygion ar safle'r ysgol, a gofod ac adeiladau cyfyngedig sydd ar gael i fodloni niferoedd ag anghenion disgyblion yn llawn. Yn arbennig, mae adeilad isaf hŷn yr ysgol yn gyfyng ac nid yw pob ystafell ddosbarth yn darparu mannau synhwyrdd addas. Er gwaetha'r cyfyngiadau hyn, mae'r staff yn creu amgylchedd dysgu tawel a threfnus, y mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iddo.

Ceir digon o athrawon cymwys a phrofiadol, ac mae arweinwyr yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i fodloni anghenion disgyblion mewn gwahanol ddsosbarthiadau. Mae nifer uchel o staff cymorth gan yr ysgol sy'n darparu gofal a chymorth effeithiol iawn i ddisgyblion.

Mae'r tîm arwain a llywodraethwyr yn craffu ar y gyllideb yn ofalus. Maent yn sicrhau bod gwariant yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Mae cynlluniau manwl gan yr ysgol ar gyfer defnyddio'r grantiau amrywiol, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion. Nid yw gwerthuso effaith y grantiau hyn wedi'i ddatblygu digon.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod arolygiad, fel arfer mae arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle y bo'n briodol
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2020